

adeiladodd bont enwog Pontypridd (dethlir ei chwarter-milflwyddiant yn 2006), ac ym 1906 dadorchuddiwyd plac er cof amdano o waith y cerflunydd enwog, Syr William Goscombe John.

Gweinidog arall (a gladdwyd ym mynwent y Capel) oedd y bardd, beirniad eisteddfodol, areithydd a chyhoeddwr gwleidyddol, a golygydd cyfnodolion: y Parchedig William Williams ('Caledfryn'). Yn yr un bedd ag yntau claddwyd ei fab William Morgan Williams ('ap Caledfryn'), portreadwr a thirlunydd a gafodd ei wersi paentio cyntaf pan oedd yn chwe blwydd oed gan Hugh Hughes yng Nghaernarfon. Mae portread a baentiodd o'i dad i'w weld yn y Capel.

Un arall a gladdwyd yn y fynwent yw'r Parchedig Evan Jones ('Ieuan Gwynedd'). Fe'i cofir yn bennaf am ei ysgrifau grymus mewn papurau newydd a chyfnodolion yn amddiffyn Anghydfurfiaeth Cymru, yn arbennig yn erbyn y cyhuddiadau a wnaed gan gomisiynwyr y Llyfrau Gleision. Ailgyhoeddodd rai ohonyn nhw ar ffurf pamffledi.

'Abaty Westminster Cymru'

Dim rhyfedd, felly, i Gapel Groeswen gael ei alw'n 'Abaty Westminster Cymru'. Ym 1987 fe'i dyfarnwyd yn adeilad 'o ddi-ddordeb cenedlaethol' gan Cadw a'i restru (ynghyd â'r fynwent) yn Radd 2. Canodd Watcyn Wyn am y fynwent fel hyn:-

*Hen fynwent y cyfiawnon – y llannerch
Lle huna enwogion;
Rhyw wely i anfarwolion
Yw enw tir y fynwent hon.*

Bu Capel Groeswen yn enwog am ei eisteddfodau, ac yno ym 1845 enillodd John Ambrose Lloyd ei wobwr gyntaf erioed am gyfansoddi. Y darn buddugol oedd emyn-dôn, a rhoddodd yr enw 'Groeswen' ami i goffâu'r achlysur.

Mae Cyfeillion Groeswen wedi lansio apêl i godi arian er mwyn adfer i'w gogoniant adeilad a safle sydd ag iddynt le arbennig yn hanes Cymru. Bydd Peter Jones, Llyswen, 90 Heol Martin Sant, Caerffili, yn falch o dderbyn cyfraniadau. Ceir ganddo daflen hysbysrwydd sy'n cynnwys ffurflen i'w awdurdodi adennill 28c yn y bunt o'ch rhoddion drwy drefniant gyda Chyllid y Wlad.

O Watford Fawr i Blas Watford

Mae i Watford fawr a'i berchennog, Thomas Price, le arbennig yn hanes cynnar Methodistiaeth. O'r 122 Sasiwn Methodistiaidd a gynhaliwyd yng Nghymru rhwng 1740 a 1748 mewn gwahanol fannau, bu pedair ar ddeg ohonyn nhw yn y tŷ hwn. Roedd Price yn Ynad Heddwch ac yn uchel iawn ei barch. Teithiai'n aml i fod yn bresennol mewn



Capel Groeswen heddiw: tybir mai'r 'society room' wreiddiol sydd ar y dde, ynghyd â'r esgynfaen marchogaeth.

llysoedd barn er mwyn rhoi cefnogaeth i gynghorwyr a oedd wedi cael eu gwysio gan eu gwrthwynebwyr i ymddangos o flaen yr ynadon lleol [mae John Davies yn egluro yn ei Hanes Cymru: doedd y Methodistiaid cynnar ddim yn Anghydfurfwyr, ac felly'n methu â manteisio ar nawdd Deddf Goddefiad 1689].

Bu ymweliad cyntaf George Whitefield â Watford Fawr mor gynnar â 1739; a phan briododd â Mrs Elizabeth James, gwraig weddw o'r Fenni, ym 1740, cynhaliwyd y gwasanaeth yng Nghapel Martin Sant, Caerffili (capel anwes eglwysig ym mhlwyf Eglwysilan) a'r wledd yn Watford Fawr. Arhosodd John a Charles Wesley yn y tŷ pan oedd y ddau ar deithiau pregethu yn ne Cymru ar

ddechrau'r 1740au.

Yn ei farwnad i Grace, merch-ynghyfraith Thomas Price, a fu farw yn 1780 yn 37 oed, mae Pantycelyn yn dangos ei fod yn gyfarwydd â'r tŷ a'i amgylchoedd drwy ambell ymweliad:-

*Mi ddych' mygaf bod hi'r awr hon,
'R hyd y gerddi wrth fy nglun,
Megis JONES, yn dangos llyisiau,
A dweyd enwau pob yr un...*

*Mae'r adeilad hardd fu yno,
Pob creadur yn gyntun,
Yn cyd-riddfan ac och'neidio.
Hyd nod parot bach ei hun.*

Newidwyd enw Watford Fawr i Plas Watford yn y 1920au, ac erbyn hyn mae rhan fawr o'r tir yn stadau tai a chwrs golff.

Rhag-hysbyseb

Diwrnod Agored y Gymdeithas

Cynhelir diwrnod agored y Gymdeithas yn

NHANYBWLCH, MAENTWROG

DYDD SADWRN 22 EBRILL 2006

yn dechrau am 10 y bore.

Ceir darlithoedd gan

DEI TOMOS: *(Teithwyr y gorffennol i Eryri)*
J. ELWYN HUGHES: *(Ffraethineb y Chwarelwyr)*
ARWEL ROCKET JONES: *(Cymdeithas y Lloeredigion ym Meirion yn 18g),*
DAVID MEREDITH: *(Yr hyn a welais ac a glywais)*

Bydd y diwrnod yn costio oddeutu £20
(yn cynnwys têt/coffi a bisgedi yn y bore a'r prynhawn
a chinio ganol dydd)